

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Craffu Partneriaethau</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>20 Mai 2021</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b>	<b>Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd/Graham Boase, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Graham Boase, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus.</b>
<b>Teitl</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020/21</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. Mae'r adroddiad am waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd) yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. I ystyried Chwarter 4/Adroddiad Blynyddol ar waith a chynnydd y Bwrdd yn ystod 2020-21

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Bod Aelodau yn ystyried cynnwys Chwarter 4/Adroddiad Blynyddol a darparu sylwadau ac adborth

## **4. Manylion yr Adroddiad**

4.1. Ar 8 Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y Cyngor y Fargen Dwf Derfynol gyda Llywodraethau'r DU a Chymru a chytunwyd ar gytundeb llywodraethu (GA2) fel sail i lywodraethu gwaith y Bwrdd i ddarparu'r Weledigaeth Dwf a'r Fargen Dwf. Fel rhan o GA2, cytunwyd y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn paratoi

adroddiad chwarterol ar waith y Bwrdd a'i rannu gyda phob sefydliad partner er mwyn ei gyflwyno i Craffu.

4.2. Cytunwyd hefyd y byddai swyddog o'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gallu mynychu hyd at ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfod craffu perthnasol er mwyn ateb cwestiynau. Cytunwyd y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn anfon cynrychiolydd i Craffu i ystyried adroddiadau Chwarter 2 a Chwarter 4 a bod yr adroddiadau mewn perthynas â Chwarter 1 a Chwarter 3 yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth.

4.3. Bydd Chwarter 4/Adroddiad Blynyddol y Bwrdd yn dilyn yr adroddiad hwn a bydd ar gael i aelodau cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 20 Mai. Bydd swyddog o'r Swyddfa Rheoli Portffolio ynghyd â swyddogion perthnasol y Cyngor ar gael i ateb cwestiynau yn y cyfarfod.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae'r Fargen Dwf yn seiliedig ar themâu sydd yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn codi'n uniongyrchol o graffu'r adroddiad hwn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi'u cynnal gydag eraill.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Fel y nodwyd ar flaen yr adroddiad hwn, dyma adroddiad diweddar, er gwybodaeth yr aelodau, ac nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol. Mae adrodd yn rheolaidd ar gynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru yn hanfodol i sicrhau cydymffurfriad â dyfarniad y gofynion cyllido a GA2. Fel y nodwyd o dan 'Cyllid' yn

rhan 2 yr adroddiad chwarterol, mae CS Gwynedd wedi cadarnhau bod trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru o ran proffil grant ac amodau perthnasol, ar ôl i Lywodraeth y DU sbarduno eu trefniadau cyllido. Beth bynnag yw canlyniadau'r trafodaethau hyn, mae cyllideb ddigonol mewn lle ar gyfer cyfraniadau CSDd i gynorthwyo gyda sefyllfa llif arian fel y cytunwyd fel rhan o'r Gyllideb gan y Cyngor ym mis Ionawr.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chraffu'r adroddiad hwn.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. a21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.